



## Ysgol Bro Plenydd Polisi Tywydd Garw

### Nod

Sicrhau fod pob plentyn ac oedolyn yn ddiogel beth bynnag fo'r tywydd. Sicrhau fod trefniadau addas yn eu lle i allogi'r ysgol i ddilyn y canllawiau isod

### Canllawiau

1. Cyfrifoldeb y pennaeth yw penderfynu a ddylid cau ai peidio. Mae'r AALL yn darparu canllawiau ond ni all aelod o staff yr Awdurdod gymryd y penderfyniad terfynol. Bydd y penderfyniad yn ddibynol ar asesiad o'r ffactorau perthnasol gan gynnwys rhagolygon y tywydd, y sefyllfa yn ardal yr ysgol, sefyllfa aelodau staff a teithio a.y.y.b.
2. Pan gymerir penderfyniad i gau ysgol, dylai'r pennaeth hysbysu'r Gwasanaeth Ysgolion drwy gysylltu â'u Swyddfa.
3. Gall ysgolion hefyd fanteisio ar y cytundeb sy'n bodoli â'r cyfryngau drwy gysylltu â Heart FM ar 01248 673 433 neu 0845 270 2466, Radio Cymru 0870 350 0500 a Radio Wales 0800 100 110, gwefan yr ysgol, neu gwefan Cyngor Gwynedd.
4. Gan fod y tywydd yn amrywio cymaint o ardal i ardal, pan fydd tywydd garw bydd yr ofalwraig yn ffonio'r pennaeth i'w gartref ac yn ei hysbysu o'r sefyllfa parthed y tywydd yn Y Ffor a'r cyffiniau.
5. Os bydd gwir bryder yn dilyn sgwrs rhwng y gofalwr a'r pennaeth, bydd y pennaeth yn cysylltu gyda unrhyw darparwyr cludiant er mwyn cytuno ar yr hyn ddylid ei wneud.
6. Byddwn yn ceisio cysylltu â pob rhiant i'w hysbysu fod yr ysgol ar gau, neu bod plant i'w gyrru adref.
7. Mewn achosion ble mae darparwr cludiant yn hysbysu'r ysgol eu bod yn awyddus i gludo rhai plant yn fuan, dylid cydsynio i'r cais. Cyfrifoldeb y darparwr yw cludo'r plant adref yn ddiogel ac wrth wneud cais o'r fath, fe fydd y darparwr yn ymateb i rybuddion tywydd neu dystiolaeth uniongyrchol fod y sefyllfa yn gwaethygu. Os nad yw darparwr yn abl i ddarparu cludiant yn y bore oherwydd tywydd garw, yna ni fydd y cludiant hynny ar gael yn y prynhawn. Dylid hysbysu unrhyw rieni sydd wedi penderfynu cludo eu plant i'r ysgol dan amgylchiadau o'r fath bod angen iddynt drefnu i gludo'r plant adref yn y prynhawn gan na fydd y cludiant arferol ar gael.
8. Os penderfynir cau ysgol, dylai'r pennaeth hysbysu'r darparwyr cludiant o'r penderfyniad. Os methir a chysylltu â'r darparwyr, dylid hysbysu'r Awdurdod drwy'r Swyddfa Ardal.
7. Ble mae penderfyniad i beidio agor ysgol, dylai staff sydd yn medru teithio i'r ysgol **HEB ROI EU HUNAIN MEWN SEFYLLFA SY'N PERYGLU EU DIOGELWCH**, wneud hynny. Cyfrifoldeb y pennaeth, ar ôl asesu'r amgylchiadau penodol, fydd cyfarwyddo'r staff yma a oes angen iddynt aros ar safle'r ysgol ai peidio. Ble mae staff yn methu a chyrraedd eu hysgol, neu yn cael eu cyfarwyddo gan eu pennaeth i beidio a theithio, fe'u hannogir i gysylltu a'u hysgol leol i ofyn a allent fod o gymorth.

### Casgliad

Yng Ngwynedd, mae cyfnodau o dywydd garw yn gymharol anghyffredin ac eithriadau yw'r adegau ble mae'n rhaid i ysgolion gau mewn amgylchiadau o'r math. Serch hynny, mae'n bwysig fod y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod trefniadau clir yn eu lle ar gyfer yr adegau ble mae'n rhaid i rai plant gael eu hanfon adref yn fuan neu lle gorfodir ysgol gyfan i gau oherwyd tywydd garw i sicrhau diogelwch a lles yr holl blant a'r staff.

Mabwysiadawyd y Polisi / Cynllun hwn gan Lywodraethwyr Ysgol Bro Plenydd:

Cadeirydd y Llywodraethwyr :

.....

Dyddiad

.....